

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

**ADRODDIAD YNGLŶN AG ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28 (4) (d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygiad o Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd

Ystyriodd y Panel Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2014/15 yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2015.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o sut roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cyflawni ei swyddogaethau a chyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn a'r cynnydd a wnaed yn yr amser hwnnw wrth fodloni amcanion yr heddlu a throsedd o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Argymhellion

Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15.